# Proffil y Rôl: **Hyfforddwr Datblygu**

| Cyfeirnod |
|---|
| XXXX |

| | |
|---|---|
| **Grŵp y Swydd** | **Cymorth Gweithredol** |
| **Teulu'r Swydd** | **Gwasanaethau Cenedlaethol** |
| **Lefel Radd** | **EO** |

**Pwrpas y Rôl**

Bydd y rôl hon yn gyfrifol am yr hyfforddiant parhaus y mae aelodau newydd o staff yn ei gael wrth ymuno â CTSC, neu fod ar staff eu hangen wrth symud i ddyletswyddau newydd, gan sicrhau eu bod yn datblygu ac yn dangos y sgiliau a'r wybodaeth i ddarparu gwasanaeth cynhwysol a hygyrch i ddefnyddwyr amrywiol. Bydd y rôl yn canolbwyntio ar anghenion tymor byr i ganolig y dysgwyr.

**Prif Gyfrifoldebau**

- Hyfforddi a datblygu dysgwyr, gan ddefnyddio dull dysgu cyfunol, yn ystod cam cyntaf Datblygu Pobl (h.y. ar ôl y cam hyfforddiant cynefino 10 diwrnod cychwynnol) a hyd at drosglwyddo i fusnes fel arfer timau CTSC arferol, gan sicrhau, drwy'r gromlin cymhwysedd, eu bod yn adeiladu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sylfaenol angenrheidiol i weithio ym maes CTSC, gan ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol ym mha bynnag awdurdodaeth y byddant yn gweithio
- Cysylltu ag Arweinydd y Tîm Datblygu ar reoli o ddydd i ddydd a materion bugeiliol dysgwyr tra byddant yn Datblygu Pobl
- Gweithio gyda dysgwyr ar sail 1-2-1 i wella perfformiad a'u helpu i asesu eu perfformiad eu hunain a chael mynediad at y datrysiadau a all eu helpu i symud ymlaen
- Monitro a phrofi dysgwyr yn erbyn safonau ansawdd a chynhyrchiant, a darparu mynediad at adnoddau dysgu /hyfforddi lle bo angen, er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wybod a sut i ryngweithio â defnyddwyr yn effeithiol ac yn effeithlon, gan wella'r gwasanaeth a ddarperir
- Sicrhau bod pob gweithiwr CTSC newydd yn cael ei hyfforddi i'r safon ofynnol cyn symud i gam nesaf y cam Datblygu Pobl a chymeradwyo dysgwyr neu argymell eu bod yn ailadrodd cam dysgu, er mwyn sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n gyson i ddefnyddwyr a sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth unigolion yn bodloni'r safon ofynnol i fodloni disgwyliadau defnyddwyr
- Cynnal gwybodaeth am yr offer a'r datrysiadau dysgu sydd ar gael i helpu dysgwyr i ddatblygu a chyfeirio dysgwyr at y rhain pan fo angen, ac os oes angen, gweithio drwy'r rhain gyda'r dysgwr
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu perfformiad unigolion a grwpiau i wella perfformiad a chwrdd â dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) a chynyddu hyder defnyddwyr wrth ddarparu gwasanaethau CTSC
- Cysylltu ag Arweinydd y Tîm Datblygu ac Arweinwyr Tîm ar benderfyniadau sy'n ymwneud â gallu a chymhwysedd dysgwyr a chyfrannu at benderfyniadau ynghylch gwella perfformiad

**Perthnasau a Chysylltiadau Allweddol**

Bydd y rôl hon yn hyfforddi a datblygu unigolion mewn meysydd busnes penodol a sgiliau cyffredinol yn ymwneud â defnyddwyr. Gweithio gydag Arweinwyr Tîm, y perchennog strategaeth a Penaethiaid Gweithrediadau ar gynlluniau cyflawni, cysylltu â'r tîm rheoli'r gweithlu i sicrhau bod matrics sgiliau yn cael ei ddiweddaru gyda sgiliau newydd ar gyfer staff CTSC. Bydd gofyniad rhannol i berswadio a dylanwadu ar lefelau is

- **Arweinwyr tîm** – trafod anghenion datblygu presennol a pharhaus staff a thimau yn y CTSC a chasglu gwybodaeth am effeithiolrwydd gweithgareddau datblygu pobl
- **Rheolwr y Strategaeth Datblygu Pobl** – trafodaeth ynghylch cyfeiriad Datblygu a rhoi mentrau newydd ar waith
- **Hyfforddwyr (ar gyfer hyfforddiant cynefino)** – rhannu gwybodaeth am ddysgwyr sy'n cael eu trosglwyddo draw
- **Staff CTSC / Dysgwyr Datblygu Pobl** – casglu gwybodaeth am effeithiolrwydd gweithgareddau datblygu pobl
- **Tîm Rheoli'r Gweithlu**– sicrhau bod manylion sgiliau newydd yn cael eu cofnodi yn y matrics sgiliau

**Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad**

- Sgiliau arweinyddiaeth - arddangos a gwreiddio y diwylliant a'r ffyrdd newydd o weithio ar gyfer y CTSC wrth ddarparu gwasanaethau o safon ar draws pob awdurdodaeth CTSC.
- Gwybodaeth sy'n benodol i fusnes (neu barodrwydd i ddysgu) a phrofiad i allu hyfforddi a chynghori dysgwyr ar wella mewn meysydd busnes penodol
- CIPD neu gymhwyster mewnol mewn hyfforddi
- Sgiliau pobl a sgiliau cyfathrebu - i allu hyfforddi dysgwyr i fod yn fwy effeithiol wrth ymdrin ag ymholiadau defnyddwyr dros y ffôn, drwy e-bost neu ar y we (ac ati)
- Y gallu i farnu capasiti, cymhwysedd a photensial mewn dysgwyr ac addasu'r dull ar gyfer gwahanol ddysgwyr - er mwyn sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau.
- Gwybodaeth am, neu barodrwydd i ddysgu am adnoddau a datrysiadau dysgu - i argymell i ddysgwyr
- Sgiliau hyfforddi - i allu helpu dysgwyr i ddeall a chymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad eu hunain, i'w cefnogi i wneud hynny ac i roi arweiniad lle bo angen
- Gwybodaeth am, neu barodrwydd i ddysgu am safonau gwasanaeth GLITEF a CTSC - i allu mesur perfformiad dysgwyr yn erbyn y rhain a darparu cymorth i wella lle bo angen.
- Hyblygrwydd wrth weithio - teilwra arddull hyfforddi i anghenion dysgwyr tra'n parhau i fodloni gofynion busnes.
- Gwydnwch ac awdurdod - gallu rheoli dysgwyr yn effeithiol, weithiau mewn sefyllfaoedd heriol.

**Cymhlethdodau**

| | |
|---|---|
| **Datrys problemau** | Bydd y rôl hon yn gwneud penderfyniadau am gymhwysedd dysgwyr mewn pynciau penodol a'u gallu cyffredinol, gan eu mesur yn erbyn meini prawf penodol - a ydynt wedi cyrraedd y safon cywir, ac os ddim, beth sydd ei angen arnynt i gyrraedd y nod hwnnw. Bydd y penderfyniad yn penderfynu a fydd dysgwyr yn cael symud i gam nesaf yr hyfforddiant neu ailwneud unrhyw ddysgu er mwyn symud yn eu blaenau. Mae polisïau a chanllawiau ar gael i helpu deilydd y swydd i wneud y penderfyniadau hyn. Bydd deilydd y swydd yn ymdrin â materion yn ymwneud ag ystafell ddosbarth e.g. ymholiadau gan ddysgwyr, cyflymder cynnydd dysgwyr, e.e. hyfforddiant adferol, rheoli pryderon. |
| **Rheoli Adnoddau** | Dim - bydd yn bwydo gwybodaeth am reoli dysgwyr i Arweinwyr y Tîm Datblygu Pobl. |
| **Ymreolaeth** | Mae cwmpas i ddeilydd y rôl ymarfer camau gweithredu annibynnol yn y ffordd y maent yn hyfforddi eu dysgwyr, ond bydd hyn wedi'i gyfyngu gan brosesau, polisïau a |